# Bwletin Medrwn Môn

Rhifyn 14
Rhagfyr
2025

## Cerdded ein ffordd i'r brig gyda Gwobrau Môn Actif!!

Mae Medrwn Môn yn dathlu ar ôl ennill y Wobr Gweithle Actif yng Ngwobrau Môn Actif yng Nghanolfan Biwmares ar 24 Hydref.



Roedd y gwobrau'n gyfle i ddathlu'r cyfoeth o dalent ac ymroddiad gwirfoddolwyr mewn grwpiau chwaraeon ledled yr Ynys, ac roedd yr enillwyr yn cynnwys CELS, Cyngor Tref Caergybi, Clwb Criced Porthaethwy a Chlwb Rygbi Llangefni.








Cafodd ein gwobr ei rhoi mewn cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth y mae Bwrdd Medrwn Môn wedi'i rhoi i'r staff i gymryd amser o'r swyddfa fel tîm er mwyn cefnogi eu hiechyd a'u lles. Fel y gwelsoch mewn bwletinau blaenorol, mae staff yn defnyddio'r desgiau sefyll a'r pad cerdded, yn mynd am dro bob amser cinio, wedi cerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir ac wedi rhoi cynnig hyd yn oed ar badlfyrddio!

***Llongyfarchodd Andrew Hughes, Cadeirydd Medrwn Môn, y tîm ac fe wnaeth gydnabod llwyddiant y Bwrdd wrth gefnogi staff i aros yn actif ac yn iach:***
***"Mae'n hynod bwysig i ni fel sefydliad fod ein staff yn gallu gofalu am eu lles eu hunain. Mae hyn yn helpu i greu tîm hapus ac ymroddedig.".***

@medrwnmon
@medrwnmon
**Ffôn:** 01248 724944
**Safle We**: www.medrwnmon.org
**Ebost**: post@medrwnmon.org

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

# 3ydd Arddangosfa Cynllunio Lle a Chynghreiriau!

Cynhaliwyd y trydydd Cyfarfod Rhwydwaith Cynghreiriau gennym ym mis Tachwedd. Roedd y sesiwn yn tynnu sylw at yr holl waith y mae'r rhaglen Cynllunio Lle wedi bod yn ei gyflawni ledled yr Ynys drwy ariannu Cynghreiriau i wneud gwahaniaethau go iawn yn eu cymunedau.



Mae'r rhaglen Cynllunio Lle wedi ein galluogi i ddosbarthu dros £300,000 o Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2024–25 i Gynghreiriau cymunedol, ac roedd yr arddangosfa'n gyfle i fyfyrio ar sut y gwariwyd yr arian hwnnw ar brosiectau ar lawr gwlad sy'n cefnogi anghenion a nodwyd gan y gymuned.

Diolch i'n Haelod Bwrdd, Sara Spinks, am rannu ei phrofiadau gyda Chynghrair Bro Aberffraw, ac i bawb arall a gymerodd ran yn ein fideo arddangos!
**Mae'r ffilm ar gael i'w gweld ar ein gwefan:**
**https://www.medrwnmon.org/cy/place-shaping**




Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweithio gyda'r Public Map Platform drwy Gynghrair Bodowyr a Chrigyll, gan nodi llwybrau cyhoeddus ac edrych ar gysylltu â thrafnidiaeth gyhoeddus. Cafodd y cynghreiriau hefyd y cyfle i fod yn rhan o broses fapio gwydnwch Môn.




Cynhaliodd Building Communities Trust, 19 gweithdy ledled Cymru, gan roi cyfle i gymunedau leisio eu barn a chyfrannu at faniffesto Cymunedau Llewyrchus Cymru. Cynhaliwyd gweithdy yn ein swyddfa, a chafodd aelodau'r cynghreiriau gyfle i fynychu. Mae'r Maniffesto yn "nodi'r newidiadau yr ydym yn credu, gyda'n gilydd, y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nesaf eu gwneud i ryddhau potensial llawn gweithredu dan arweiniad cymunedau" – BCT.




Mae Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol (CTA) wedi cefnogi Ward Bodowyr, a chynhaliwyd trafodaethau i ddatblygu cynllun trafnidiaeth gymunedol.
Rydym wedi llofnodi Siarter Teithio Iach a Siarter Lleoli Cymru, gan hyrwyddo'r egwyddorion hyn ym mhob agwedd berthnasol o'n gwaith Siapio Lle ar draws yr Ynys.



Mae ein rhaglen Cynllunio Lle hefyd wedi'i chynnwys fel astudiaeth achos ac enghraifft o arfer da yn Nhabl Cyfamod y DU ar gyfer Cymdeithas Sifil.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL · Healthy Travel Wales · cta community transport · PUBLIC MAP PLATFORM

# Beth sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Cynghreiriau yn 2026?

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r cynghreiriau a chefnogi'r cymunedau yng Nghanolbarth Môn a Thwrcelyn i sefydlu'r cynghreiriau yn eu Wardiau.

Cyhoeddir ein llyfryn Cynllunio Lle newydd, gan rannu cynnydd dros 100 o brosiectau sydd wedi elwa o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Bydd cynghreiriau hefyd yn derbyn diweddariadau chwarterol o'r gwaith a gwblhawyd gan eu Cydlynydd Asedau Lleol penodedig ar sut mae'r prosiect rhagnodi cymdeithasol o fudd i'w cymunedau, hybiau ac unigolion yn eu hardal.
Mae'r gwaith hwn yn hanfodol, trwy gysylltu pobl â'u cymunedau i gefnogi eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymarferol mae'n fuddiol i iechyd a lles.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ddatblygu pecyn cymorth, yn unol â chais Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, bydd hwn yn adnodd defnyddiol i gymunedau sy'n dymuno sefydlu a dilyn yr egwyddor gynghrair y mae Medrwn Môn wedi'i chreu.

**Mae'r cynghreiriau bob amser yn chwilio am aelodau newydd, gall unrhyw un ymuno a'u cefnogi!**

Nid oes rhaid i chi fynychu'r holl gyfarfodydd, efallai mai dim ond cefnogi rhai prosiectau yn eich ardal y bydd gennych ddiddordeb ynddynt, ac mae hynny'n iawn!
Am ragor o wybodaeth am eich cynghrair lleol, dilynwch y ddolen am ragor o wybodaeth
**https://www.medrwnmon.org/place-shaping**






Building Communities Trust
Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

# Mae Llwyfan Mapiau Cyhoeddus yn Lansio ei Fap Beta!

## Mapio Medrwn Môn yn cael ei gydnabod yn y Senedd



Cynrychiolwyd staff Medrwn Môn yn lansiad y Llwyfan Map Cyhoeddus (PMP), a noddwyd gan Arweinydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth, yng Nghaerdydd ym mis Medi.

Cynhwysodd y sesiwn yn y prynhawn drafodaeth panel ar "Beth yw Map Cyhoeddus", gweithdai mapio, a sgyrsiau byrion gan bartneriaid i'r prosiect, tra bod yr achlysur yn y nos yn gweld y lansiad swyddogol ac yn rhoi cyfle i'r rhai a fynychodd i weld y map am y tro cyntaf yn ei ffurf bresennol.




Mae'r map yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan Medrwn Môn, a gasglwyd trwy fapio asedau ein rhaglen Cynllunio Lle, gwybodaeth am dros 100 o brosiectau a ariannwyd drwy Cronfeydd Allweddol Ffyniant Gyffredin i gynghreiriau cymunedol, ac am Mannau Cynnes.

Mae Medrwn Môn wedi bod yn gweithio gyda Llwyfan Map Cyhoeddus ers Tachwedd 2024 ac wedi derbyn cyllid tuag at ein Swyddog Cynllunio Lle. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Swyddog wedi gweithio gyda staff PMP i gynnal sesiynau yn ein cymunedau, gan gynnwys cysylltu Bodowyr – lle gwnaethom fapio llwybrau a chysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus. Cafodd cynghreiriau hefyd wahoddiad i gymryd rhan yn y sesiwn fapio cysylltiadau gwaith, gan ddefnyddio pecyn offer i fapio'r ffyrdd y maent yn cydweithio o amgylch nodau cyffredin.




Mae lansiad y Beta Map yn nodi diwedd cam un o'r prosiect, a dechrau cam dau, lle mae'r prosiect yn ceisio defnyddio'r dysgu o'r gwaith ar Ynys Môn ac ehangu i ardaloedd eraill yng Nghymru. Roedd Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yn bresennol ac yn nodi:
**"Roedd yn bleser mynychu lansiad y Llwyfan Map Cyhoeddus heno yn y Senedd. Mae'r prosiect ar Ynys Môn yn ceisio cynnwys pobl yn fwy effeithiol mewn penderfyniadau cynllunio. Mae'n wych bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn siapio'r prosiect."**

# Rhwydwaith Cysylltu!
# i Blant a Phobl Ifanc

Diolch i bawb a fynychodd ein sesiwn Rhwydweithio Cysylltu! i blant a Phobl Ifanc ym mis Medi!




Rhoddodd y digwyddiad gyfle gwerthfawr i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc ar yr Ynys gysylltu, cydweithio a rhannu syniadau.

Drwy ddod at ein gilydd, roeddem yn gallu cryfhau perthnasoedd, edrych ar ffyrdd o weithio'n fwy effeithiol ar draws sectorau, a nodi cyfleoedd i rannu adnoddau - er mwyn gwella canlyniadau a chreu gwell cymorth i blant a phobl ifanc yn ein cymuned.



Cynhaliom weithdai am adnoddau y gallem eu rhannu a sut y gallem eu rhannu. Mae llawer o offer rhyngom ni i gyd y gellid ei rannu, o becynnau rhith-realiti, i ddisgos tawel i offer chwaraeon. Roedd yna ychydig o awgrymiadau ar sut y gallem rannu'r adnoddau, felly cadwch lygad ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan am ddiweddariadau pellach.

**Roedd yn wych clywed am y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws yr Ynys ar gyfer plant a phobl ifanc gan ein siaradwyr gwadd:**




Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Fôn Roberts, gyflwyniad diddorol ar lansiad gwefan Lles Gogledd Cymru: **Yma**



Rhoddodd Davina Carey o Piws, gyflwyniad gwych am sut mae nhw'n grymuso plant, teuluoedd a chymunedau anabl i greu Cymru fwy cynhwysol.



Rhoddodd Barry Edwards a Josie Rhisiart o Fôn Actif drosolwg byr o'r gwasanaethau gwych maen nhw'n eu darparu ar draws yr ynys a'r manteision sydd ganddyn nhw i bobl ifanc Ynys Môn.



Rhannodd Sian Eleri rai straeon bywyd go iawn gwych am sut mae rhagnodi cymdeithasol wedi helpu pobl ifanc Ynys Môn.



Gallwch glicio **Yma** i weld y fideo 🙂

# “Partneriaeth newydd yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc i aros yn actif drwy Medrwn Actif Môn!”

Rydyn ni’n falch o gyhoeddi y bydd Medrwn Môn a Môn Actif yn gweithio mewn partneriaeth i lansio’r Fenter **Medrwn Actif Môn** newydd. Mae’r fenter yn gynllun ffitrwydd sydd wedi’i chreu i wella lles corfforol a meddyliol pobl ifanc drwy alluogi mynediad at weithgareddau ffitrwydd strwythuredig neu weithgareddau campfa am ddim am 12 mis yng Nghanolfannau Hamdden Môn Actif.

Bydd Medrwn Môn a Môn Actif yn gweithio mewn cydweithrediad â gweithwyr iechyd fel meddygon teulu, gweithwyr iechyd meddwl, nyrsys ysgol, athrawon, gwasanaethau ieuenctid, Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau a grwpiau allweddol eraill i sicrhau ein bod ni i gyd yn chwarae ein rhan wrth greu Ynys Môn sy’n iachach, yn hapusach ac yn fwy actif.

Bydd y prosiect ar y cyd yn helpu i dorri’r rhwystr cost i gael mynediad at gyfleusterau hamdden ar Ynys Môn ac yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu manteision i’w hiechyd corfforol a meddyliol drwy gynyddu eu gweithgarwch corfforol.



Bydd y fenter yn helpu i annog pobl ifanc sy’n llai actif neu mewn perygl i wneud ymarfer yn rheolaidd, gan wella iechyd cardiofasgwlaidd, cryfder, hyblygrwydd ac yn gyffredinol eu ffitrwydd a’u lles.

Prif agweddau ar feysydd ffocws Fenter Medrwn Actif Môn ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed yn cynnwys:

- Iechyd meddwl lefel isel
- Digartrefedd neu fod mewn perygl o ddigartrefedd
- Camddefnyddio sylweddau
- Galar
- Person ifanc mewn perygl o ddod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth nac hyfforddiant)
- Gofalwyr ifanc
- Lles corfforol
- Cefnogaeth Cymunedau wedi’u llywio gan Drawma





Am fwy o fanylion neu gopi o’r ffurflen gais, cysylltwch â:
**linc@medrwnmon.org** neu **datblyguchwaraeon@ynysmon.llyw.cymru**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Llesiant fel sgil ar gyfer bywyd

Gwahoddwyd Sheree, ein Swyddog Llesiant Cymunedol Trydydd Sector, gan Goleg Menai i siarad â'r grŵp Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith, am bwysigrwydd y 5 Ffordd at Les i'w llesiant nhw.




- Archwiliwyd yr holl ffyrdd gwahanol y gallwn ddysgu sgiliau newydd – nid dim ond y llwybrau arferol, ond syniadau hwylus hefyd....fel dysgu gair Cymraeg newydd neu roi cynnig ar hobi newydd sbon!
- Nid yw rhoi yn ymwneud â throsglwyddo pethau yn unig, mae'n ymwneud â rhoi eich amser, caredigrwydd, neu gefnogaeth, boed yn gwirfoddoli neu helpu ffrind.
- Pwysigrwydd cysylltu, gwneud amser bob dydd i siarad â rhywun, rhannu gwên, neu hyd yn oed anfon neges gyflym.
- Ymarferwyd cadw'n egnïol dan arweiniad yr hyn yr oedd y myfyrwyr yn ei fwynhau, nid oes rhaid iddo fod yn gampfa, gallai fod yn ddawnsio.
- Gan sylwi, cymerwyd peth amser i edrych allan, edrych ar y gwaith celf o amgylch yr ystafell.





Roedd yn sesiwn wych, a mwynhaodd pawb a fynychodd:
*"Diolch yn fawr iawn am ddod draw at ddysgwyr y cwrs Sgiliau Bywyd a Gwaith heddiw, mwynhaodd pawb y sesiwn yn fawr iawn"*

# Uwchgynhadledd Ieuenctid LLMC a Phrifysgol Bangor




Cafodd ein Swyddog Cynllunio Lle, Anne, y cyfle gwych i fynychu digwyddiad panel ym Mhrifysgol Bangor, wedi'i gwahodd gan y Llwyfan Mapiau Cyhoeddus. Maent wedi bod yn gweithio'n agos gyda disgyblion o Ysgol Morswyn, Caergybi, gan eu tywys trwy dair sesiwn 'mapio' ysbrydoledig. Archwiliodd y disgyblion eu hardal leol yn fanwl – gan edrych ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, a pha newidiadau yr hoffent eu gweld yn y dyfodol.
Helpodd y sesiynau hyn iddynt adeiladu darlun cliriach o'u cymdogaeth a nodi'r gwelliannau yr oeddent yn teimlo y byddent yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w tref a'r rhai sy'n byw ynddi.
Rhoddodd y sesiwn panel gyfle i'r disgyblion gyflwyno eu syniadau a gofyn cwestiynau meddylgar, ystyriol.

Roedd sesiwn y prynhawn i gyd yn ymwneud â gweithredu, gan dynnu ar yr ymatebion a dderbyniwyd, gyda'i gilydd fe ddechreuon nhw weithio drwy sut y gallai rhai o'u hawgrymiadau symud ymlaen yn realistig.
Fe wnaethon nhw drafod camau nesaf posibl, gyda phwy y gallai fod angen iddyn nhw weithio, a sut y gallen nhw droi eu syniadau yn newid cadarnhaol go iawn. Roedd yr ystafell yn llawn egni, gwaith tîm, a chreadigrwydd - adlewyrchiad gwirioneddol o ba mor bwerus y gall lleisiau ieuenctid fod.
Mae'r ymroddiad a ddangoswyd gan y disgyblion wedi bod yn ysbrydoledig, ac mae pawb a oedd yn rhan o'r sesiwn yn gyffrous i weld sut mae eu syniadau'n parhau i ddatblygu.

# Ysgrifennwch,Ennillwch,Profwch!
# Ysgrifennu Cynigion i Adrodd

## Ysgrifennu Cynigion Ariannu Llwyddiannus




Cysylltodd Neuadd Goffa Rhyfel Porthaethwy â Medrwn Môn ynglŷn â'u helpu i adeiladu'r set sgiliau yn eu pwyllgor ac i gryfhau'r grŵp ar gyfer y dyfodol.
Mynychodd **8** aelod o'r bwrdd y cwrs Ysgrifennu Cynigion a gyflwynwyd gan Stacey a Sheree lle gwnaethom:

- Archwilio dull ymarferol o ddatblygu cynnig ariannu
- Edrych ar offer a thechnegau ar gyfer cynllunio, ysgrifennu a chyflwyno cynigion llwyddiannus
- Ymarfer ac asesu sgiliau ysgrifennu cynigion
- Darparu awgrymiadau a chanllawiau cyffredinol yn ymwneud ag ariannu

***"Popeth sydd angen i mi ei wybod i wneud fy swydd yn haws - mae gen i rwan y sgil i strwythuro cynnig da a'i ofynion***




## Monitro a Gwerthuso

Fel rhan o'n cynnig i ymgeiswyr llwyddiannus am gyllid eleni, cynigiwyd hyfforddiant Monitro a Gwerthuso Cyllid am ddim i grwpiau, a ariannwyd drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.




Yn y cyntaf o gyfres o ddigwyddiadau hyfforddi, mae **20** o unigolion o **11** grŵp cymunedol bellach yn gallu:

- Creu llinell sylfaen gywir
- Dangos tystiolaeth o dargedau
- Alinio gweithgaredd i gyflawni canlyniadau
- Strwythuro gwerthusiad



Os ydych chi'n gwirfoddoli ar gyfer grŵp cymunedol ac yr hoffech chi gynnyddu eich sgiliau monitro ac adrodd, cysylltwch â Stacey am ragor o wybodaeth.




***"Roedd y cwrs yn wych, rwyf nawr yn teimlo'n fwy hyderus wrth adrodd, ac mae cael cefnogaeth Stacey o Medrwn Môn yn gysur mawr"*** Sydna (Llannerchymedd)



Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Hyfforddiant Adeiladu Sgiliau Trwy Sgyrsiau Perthynasol

Dros yr ychydig misoedd diwethaf mae Sheree a Stacey wedi bod yn brysur yn cryfhau sgiliau ein cymuned mewn cyfathrebu ystyrlon. Ar ôl cwblhau'r rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr gyda Basis Training, daethant yn gwbl gyfarparedig i gyflwyno'r cwrs Sgyrsiau Perthynasol yn lleol.

Mae'r rhaglen Sgyrsiau Perthynasol, a gynlluniwyd gan Basis (https://basistraining.co.uk/change-skills/relational-conversations/) yn darparu offer ymarferol i helpu pobl i feithrin perthynas, gwrando'n ddwfn a chynnal sgyrsiau cefnogol, sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'n ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r cyhoedd neu'n cefnogi unigolion trwy heriau bob dydd.

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd, cyflwynodd Stacey a Sheree dair sesiwn Sgyrsiau Perthynasol yn llwyddiannus. Ar draws y sesiynau hyn, croesawyd ystod amrywiol iawn o gyfranogwyr - gan gynnwys Gofalwyr Maeth, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Action for Children, yn ogystal â grwpiau trydydd sector a gwirfoddol lleol eraill. Daeth pob grŵp â'u profiadau gwerthfawr eu hunain, gan wneud pob sesiwn yn gyfoethog, yn fyfyriol ac yn ddiddorol.




***Nodwedd amlwg o'r tri sesiwn oedd y rhwydweithio naturiol a ddigwyddodd wedyn. Arhosodd y cyfranogwyr i sgwrsio, cyfnewid syniadau a meithrin cysylltiadau newydd — adlewyrchiad perffaith o'r hyn y mae Sgyrsiau Perthynasol yn anelu at ei greu.***
***Os oes gennych ddiddordeb mewn sesiynau yn y dyfodol neu os hoffech archwilio dod â'r hyfforddiant hwn i'ch sefydliad neu dîm gwirfoddol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.***
***Cysylltwch i gofrestru eich diddordeb a helpu i gryfhau cyfathrebu a chysylltiad ar draws ein cymuned.***



Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Helpu ein cymunedau i ddarparu amgylchedd diogel o ran bwyd!

Gyda diolch i Bartneriaeth Bwyd Ynys Môn, llwyddodd Medrwn Môn i weithio gyda Choleg Menai i gyflwyno Diogelwch Bwyd Lefel 2, i grwpiau cymunedol sy'n darparu lle cynnes, bwyd a chwmni i aelodau eu cymuned.

Mae Diogelwch Bwyd Lefel 2 yn bwysig ar gyfer atal afiechydon a gludir gan fwyd trwy ddysgu hylendid, rheoli tymheredd a gweithdrefnau glanhau priodol i drinwyr bwyd. Mae'r hyfforddiant hwn yn hanfodol i unigolion sy'n trin, paratoi neu weini bwyd er mwyn sicrhau y gallant ddilyn arferion diogel, cydymffurfio â rheoliadau a diogelu iechyd defnyddwyr.
Cyflwynwyd 5 cwrs ar draws yr ynys a chwblhaodd 40 o 19 o wahanol grwpiau gwirfoddol sy'n darparu bwyd i aelodau'r gymuned y cwrs hyfforddi diogelwch bwyd.

Mae'r fenter hon wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyfranogwyr unigol a'r gymuned ehangach. Adroddodd gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i baratoi a thrin bwyd yn ddiogel, ac mae ganddynt bellach ddealltwriaeth gliriach o ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â hylendid bwyd.

Mae'r hyfforddiant hefyd wedi annog gwirfoddolwyr newydd i ymuno â'r fenter, gan gryfhau capasiti a chynaliadwyedd y gymuned.

“Bydd cael mwy o bobl wedi'u hyfforddi mewn diogelwch bwyd yn cynnyddu ein cronfa wirfoddolwyr, gan wneud y grŵp yn fwy cynaliadwy”

“Mwynheais y cwrs yn fawr, ac rwy'n teimlo y gallwn wneud rhai newidiadau cadarnhaol yn y grŵp”














# Medrwn Môn yn dathlu Wythnos Yr Ymddiriedolwyr 2025

**Cynhaliwyd Wythnos yr Ymddiriedolwyr rhwng 3–7 Tachwedd 2025, ac roedd hi'n gyfle gwych i gydnabod a dathlu'r bobl sy'n gwirfoddoli eu hamser, eu sgiliau a'u profiad i gefnogi ac arwain elusennau yn ein cymunedau.**
**Mae ein hymddiriedolwyr yn chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau llywodraethu cadarn ac wrth gadw ein gwaith yn glir ac yn effeithiol. Rydyn ni'n wirioneddol ddiolchgar am eu hymrwymiad ac am eu harweiniad parhaus.**
**Diolch o galon i bob ymddiriedolwr am y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud.**

## *Sara Spinks*



Dechreuodd Sara wirfoddoli yn fuan ar ôl symud i Ynys Môn yn 2022, gan ei bod eisiau adnabod yr ardal, cwrdd â phobl, a chyfrannu at fywyd cymunedol.
Daeth ei gwirfoddoli i'r amlwg wrth iddi adnabod anghenion a chryfderau grwpiau lleol, a hynny'n ei hysbrydoli i ymuno â rôl ymddiriedolwr yn 2024. Mae hi'n dod â phrofiad mewn arweinyddiaeth, cynllunio prosiectau, a diogelu, ac mae'n ymrwymedig i helpu sefydliadau i dyfu mewn modd cynaliadwy a strategol.
Mae Sara'n mwynhau gweithio'n agos gyda phobl eraill, adeiladu perthnasoedd cryf, a gweld yr effaith gadarnhaol y gall gwaith cymunedol cydweithredol ei gael. Mae'r rôl yn rhoi teimlad cryf o bwrpas a chysylltiad iddi, rhywbeth mae'n ei ystyried yn ystyrlon ac yn werthfawr.



## *Bill Hadfield*



Symudodd Bill i Ynys Môn yn 2009 a dechreuodd wirfoddoli yn Benllech yn fuan ar ôl hynny i gysylltu â'r gymuned. Gan ddefnyddio dros 30 mlynedd o brofiad fel Swyddog Tân, daeth yn Gadeirydd Cynllun Tro Da Benllech a'r Ardal yn 2013, ac yn ogystal ymunodd â Medrwn Môn fel Ymddiriedolwr.
Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel Trysorydd ac yn eistedd ar Bwyllgor Adnoddau Dynol a Chyllid, gan ddefnyddio ei sgiliau rheoli i gefnogi llywodraethu cadarn a gwasanaethau gwirfoddol cryf.
Mae Bill yn gwerthfawrogi bod yn weithgar yn y gymuned ac yn helpu Medrwn Môn a'r Cynllun Tro Da i aros yn ymatebol ac yn gefnogol i bobl leol.

## Lyn Hughes



Mae Lyn wedi bod yn Ymddiriedolwr gyda Medrwn Môn ers 2012. Ymunodd i helpu siapio cyfeiriad strategol y sefydliad a defnyddio ei phrofiad i sicrhau bod gwasanaethau i blant a theuluoedd yn parhau i fod yn ganolog i'r gymuned.
Mae'n credu bod Ymddiriedolwr effeithiol yn gofyn am gyfathrebu da, gwaith tîm, cyfrifoldeb, a gwneud penderfyniadau clir. Trwy ei rôl, mae Lyn wedi cryfhau ei chysylltiad â'r gymuned ac wedi parhau i dyfu'n bersonol ac yn broffesiynol.
Mae Lyn wedi gweld fod yn Ymddiriedolwr i Medrwn yn hynod foddhaol, gan wybod bod ei hamser a'i hymrwymiad yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae'n disgrifio ei phrofiad fel gwerthfawr ac ystyrlon o'r dechrau hyd heddiw.

---

## Andrew Mark

Mae Andrew Mark Hughes wedi bod yn aelod o Medrwn Môn ers 2010 ac ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel Cadeirydd. Mae ei rôl yn cynnwys arwain y Bwrdd, sicrhau bod cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau yn effeithiol, cefnogi'r Prif Swyddog, a helpu'r Bwrdd i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol.
Mae Andrew yn tynnu sylw at ymroddiad staff Medrwn Môn, sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i drigolion Ynys Môn. Mae'n diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr, gan bwysleisio bod eu hamser a'u cefnogaeth yn hanfodol i waith y sefydliad.





---

## Eifiona Edwards



Dechreuodd Eifiona Edwards wirfoddoli yn Canolfan Gymunedol Gwelfor yn 1999 wrth iddi baratoi ar gyfer ymddeoliad a'i bod eisiau aros yn rhan o'i chymuned leol. Ar ôl bod yn rhan o'r Pwyllgor Rheoli gwirfoddol am flynyddoedd lawer, daeth yn Ymddiriedolwr ym Mehefin 2022 ac erbyn hyn mae wedi bod yn y rôl am dair blynedd. Mae Eifiona'n credu mai bod yn Ymddiriedolwr llwyddiannus yn gofyn am amser, ymrwymiad, cyfathrebu da, a'r gallu i weithio gyda'i gilydd er budd y gymuned. Mai`n gweld y rôl yn un foddhaol, gan ei bod wedi helpu hi i gwrdd â phobl newydd, ehangu ei chylch o ffrindiau, a chadw teimlad cryf o bwrpas yn ystod ymddeoliad. Mae hi'n dal i fwynhau cyfrannu at y Ganolfan a'r gymuned leol.

# Wythnos Cludiant Cymunedol – ‘Mwy na minibws’



Yn ystod Wythnos Cludiant Cymunedol, 13–17 Hydref, roedd Medrwn Môn yn tynnu sylw at y bobl anhygoel sy’n gwneud cludiant cymunedol yn bosibl – gyrwyr gwirfoddol, cydlynwyr a theithwyr – a’r rôl hollbwysig y mae’n ei chwarae wrth ein cadw ni i gyd yn gysylltiedig.

Mae cludiant cymunedol yn cynnig gwasanaethau drws-i-ddrws, hygyrch ac addas eu pris i’r rhai na ellir defnyddio cludiant cyhoeddus arferol. Mae’n cefnogi annibyniaeth, yn adeiladu cyfeillgarwch, ac yn helpu cymunedau i ffynnu.

Mae Ynys Môn yn ffodus iawn o fod â chynlluniau anhygoel fel:

- Cynllun Tro Da Seiriol
- Cynllun Tro Da Benllech
- Cynllun Tro Da Caergybi a’r Fali
- Cynllun Tro Da Bryngwran
- Bws Barbara
- Car Linc



Roedd ein Cydlynwyr Asedau Lleol (LACs), Bethan ac Awen, ynghyd â Gemma, ein Swyddog Cefnogi Gwirfoddoli, yn fyw ar MÔNFM efo Kev Bach yn siarad am bob dim sy’n gysylltiedig â chludiant cymunedol ar gyfer Wythnos Cludiant Cymunedol (13–17 Hydref)! Roedden nhw’n falch iawn o allu tynnu sylw at y ffaith bod Car Linc yn cynnig cludiant drws-i-ddrws sy’n hygyrch ac yn fforddiadwy i bobl sydd methu defnyddio cludiant cyhoeddus arferol.

Ers y darllediad byw, mae Medrwn Môn wedi cael llwyth o ymholiadau gan bobl sydd eisiau gwybod mwy am y gwasanaeth ac sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli.

Yn ystod yr wythnos, daeth Heno S4C draw i Fryngwran i gael sgwrs efo Margaret, y gyrrwraig wirfoddol, a Megan, un o ddefnyddwyr Cynllun Tro Da Bryngwran.

Mae Cynllun Tro Da Bryngwran yn rhan o gynllun hollbwysig sy’n helpu pobl hŷn i fynd i apwyntiadau ysbyty, at y meddyg teulu, y deintydd, i’r siopau, i’r banc – ac yn eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â’u cymuned.



Daeth Erin ac Aeron o Heno S4C i ffilmio Margaret yn mynd â Megan i apwyntiad yn Ysbyty Gwynedd, ac i gael sgwrs efo’r ddwy am faint mae’r cynllun yn ei olygu iddyn nhw.

Dywedodd Megan:**“Dw i wedi defnyddio’r cynllun sawl gwaith – dw i mor ddiolchgar i Margaret am fynd â fi. Cawson ni sgwrs hyfryd ar y ffordd, a helpodd hynny fi i ymlacio.”**




cta community transport association · Ynys Cybi & Valley Good Turn Scheme · Bryngwran Cymunedol · Cynllun Tro Da Seiriol Good Turn Scheme · Benllech & District Good Turn Scheme …there’s help at hand

# Newyddion Cyllid



**Sefydliad Charles Hayward – Grantiau Pobl Hŷn (Ar Agor Nawr)**
Mae grantiau hyd at £7,000 ar gael i elusennau bach yn y DU (incwm o dan £350,000) sy'n rhedeg prosiectau sy'n cefnogi lles pobl hŷn ac yn lleihau unigedd. Yn ddelfrydol ar gyfer clybiau cymdeithasol, gweithgareddau gaeaf-gynnes, sesiynau sy'n gyfeillgar i ddementia a chefnogaeth gymunedol i bobl 60+ oed. Ar agor drwy gydol y flwyddyn heb unrhyw derfynau amser. Mwy o wybodaeth yma:
https://charleshaywardfoundation.org.uk/grants/older-people/

**Cronfa Cymunedau Ysbrydoledig – Llenyddiaeth Cymru**
Mae cyllid ar gael i grwpiau cymunedol ledled Cymru gynnal digwyddiadau llenyddol fel darlleniadau, gweithdai, sgyrsiau a gwyliau bach. Mae'r gronfa'n talu hyd at 75% o ffioedd awduron a chostau digwyddiadau, ac mae ceisiadau'n cael eu hadolygu bob mis. Gwnewch gais o leiaf ddau fis cyn eich digwyddiad arfaethedig.
Mwy o wybodaeth: llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/cronfa-cymunedau-ysbrydoledig/

**Cronfa Dysgu yn Seiliedig ar y Celfyddydau – Sefydliad Paul Hamlyn**
Mae grantiau o £30,000–£300,000 yn cefnogi sefydliadau celfyddydol sy'n gweithio gydag ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth i gyflwyno prosiectau dysgu creadigol o ansawdd uchel. Gall y cyllid dalu costau cyflwyno, amser staff a threfnu. Derbynnir ceisiadau ar sail dreigl.
Mwy o wybodaeth: phf.org.uk/funding/arts-based-learning-fund

**Sefydliad Blakemore – Rhoddion Cymunedol**
Yn cynnig grantiau bach neu roddion mewn nwyddau (hyd at £200) i gefnogi elusennau lleol a phrosiectau cymunedol. Gall cymorth gynnwys arian parod, nwyddau, neu gyllid cyfatebol ar gyfer codi arian lleol.
Mwy o wybodaeth: afblakemore.com/about-us/our-community

**Sefydliad Teulu Ashley**
Mae grantiau o £500–£10,000 ar gael ar gyfer prosiectau creadigol, addysgol a chymunedol yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n cefnogi cymunedau gwledig ac yn defnyddio celfyddydau neu grefftau i gryfhau lles lleol. Dim ond ar gyfer costau refeniw y mae'r cyllid, a rhaid i ymgeiswyr ddangos o leiaf 10% o gyllid cyfatebol.
Gwnewch gais erbyn 31 Rhagfyr i gael eich ystyried yn y rownd ariannu nesaf.
Mwy o wybodaeth: ashleyfamilyfoundation.org.uk/how-to-apply-for-a-grant-from-the-ashley-family-foundation



# Grant Gyda'n Gilydd dros y Gaeaf

**Mae 16 hybiau cymunedol wedi derbyn cyllid o'r Grant Gyda'n Gilydd dros y Gaeaf 2025-2026. Isod mae manylion y canolfannau hyn a'r gweithgareddau y byddant yn eu cynnig.**

**Canolfan Gymunedol Llanfaelog** – Bydd Canolfan Gymunedol Llanfaelog yn lansio ei rhaglen Gaeaf gyda **Gŵyl Nadolig Gymunedol** ar ddydd Sul 30 Tachwedd, 2–4pm.
Ar ôl y digwyddiad, bydd y Ganolfan yn parhau i gynnig gweithgareddau croesawgar a chost isel tan 31 Mawrth 2026, gan gynnwys **Clwb Gemau** misol ar y Sadwrn olaf, 2–5pm a **Caffi Atgyweirio** misol ar y Dydd Mercher cyntaf, 2–5pm.






Bydd **Neuadd Bentref Aberffraw** yn cynnal Lle Cynnes **wythnosol** o Dachwedd 2025 tan 31 Mawrth 2026, gan gynnig diodydd poeth, cawl, **gweithgareddau ysgafn, sesiynau ymarfer corff ysgafn,** a **digwyddiadau cymunedol** achlysurol, gyda chefnogaeth a chyfeirio gan bartneriaid lleol.

**Bydd HWB Llan Ni, Llannerchymedd** yn cynnal prynhawn Lle Cynnes wythnosol (1–4pm, dyddiad i'w gadarnhau) tan 31 Mawrth 2026, gan ddarparu lle croesawgar am ddim i bob oed, gyda te, coffi, bisgedi a chyfuniad o weithgareddau gan gynnwys **crefftau, gemau a phrynhawnau ffilm achlysurol.**





Bydd **Clwb y Gorlan, Amlwch** yn cynnal dau sesiwn Lle Cynnes wythnosol o 7 Ionawr tan 26 Mawrth 2025, gan gynnig dosbarth **Yoga ar Gadeiriau** ar Dydd Mercher (10–11.30am) a **dosbarth Crochet** ar Dydd Iau (10am–12pm). Mae'r ddwy sesiwn yn cynnig dysgu strwythuredig neu ymarfer corff ysgafn ochr yn ochr â diodydd a hamdden cymdeithasol, gan helpu cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau, gwella lles a lleihau unigedd trwy'r misoedd oer."

Bydd **Caffi Siop Mechell** yn cynnig rhaglen o weithgareddau cymunedol dros y misoedd oer, gan gynnwys **bingo** bob yn ail **Dydd Iau 1–3yp, Beetle Drives** bob yn ail **Dydd Iau 1–3pm, a gweithdai crefft, sesiynau gemau, clwb llyfrau a karaoke** yn rheolaidd. Bydd yr holl weithgareddau yn parhau tan 31 Mawrth 2026, gan ddarparu lle cynnes a chroesawgar i drigolion gwrdd, creu a chysylltu.



# Grant Gyda’n Gilydd dros y Gaeaf

Bydd **Neuadd Bentref Talwrn a Siop Bodeilio** yn agor Lle Cynnes **bob dydd o 1 Rhagfyr 2025,** gan gynnig diodydd poeth, cawl a uwd bob bore 9–11yb, gyda **bore coffi misol ar Ddydd Sadwrn 10am–12pm**. Bydd y sesiynau hyn yn parhau tan 28 Chwefror 2026, gan ddarparu lle cyson a chroesawgar i drigolion drwy’r gaeaf.





Bydd Lle Cynnes **Tafarn Yr Iorwerth** yn cael ei gynnal bob **dydd Llun 1–5pm,** ochr yn ochr â **Te Prynhawn misol** ar ddydd Gwener olaf pob mis, gan redeg o Dachwedd tan Ebrill. Mae’r sesiynau hir-sefydledig hyn yn dod â phobl at ei gilydd i gael cwmni, diodydd a digwyddiadau cymunedol tymhorol.

Bydd **Hwb Cemaes** yn cynnal Caffi Cysylltiad wythnosol bob **dydd Iau 11am–1pm** o Ragfyr tan Chwefror, gan gynnig **cinio cymunedol am ddim, diodydd poeth a gweithgareddau ysgafn.** Mae’r rhaglen 12 wythnos hon yn darparu lle cynnes a chymdeithasol lle gall trigolion gwrdd, sgwrsio a chymryd rhan mewn sesiynau ysgafn a chreadigol.



Bydd **Neuadd Bentref Rhosneigr** yn cynnig sesiynau Lle Cynnes ar **amser cinio Dydd Mawrth** ac ar **brynhawnau Sadwrn**, gan redeg am 15 wythnos. Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar **lesiant trwy gysylltiad cymdeithasol, gweithgareddau ysgafn a diodydd**, gyda chefnogaeth gan grwpiau lleol gan gynnwys Grŵp Cyfeillgarwch Henoed a’r WI.

Bydd **Clwb Ni Dwyran** yn cynnal rhaglen Gaeaf yn **Yr Hen Fecws**, gan gynnwys **cyfarfodydd cymunedol misol (4–6pm),** sesiynau **Clwb Bach bob pythefnos i deuluoedd (3.30–5pm),** a **dau ddigwyddiad Dathliad Nadolig,** gan redeg o Ragfyr tan Mawrth. Mae’r sesiynau’n cynnwys **gweithgareddau crefft, chwarae, prydau bwyd** a chyfleoedd i deuluoedd gysylltu.”



Bydd **Neuadd Atgofol Pentraeth** yn parhau â’i **grŵp panad, teisan a sgwrs** bob **dydd Mawrth 2–4pm**, gan redeg o Ragfyr 2025 tan Mawrth 2026, ochr yn ochr â naw o **ddigwyddiadau arbennig fel sgwrsiau hanes, cinio tymhorol, prynhawniau ffilm a gweithdai cymunedol.** Mae’r sesiynau hyn yn darparu lle am ddim a chroesawgar i drigolion hŷn ac unig.

# Grant Gyda'n Gilydd dros y Gaeaf



Bydd **Neuadd Goffa Bodwrog** yn cynnal **sesiynau wythnosol 'Paned a Sgwrs' bob dydd Llun am 11am, Yoga ar Gadeiriau bob bore Mawrth, grŵp gweddi ar brynhawn Dydd Iau,** sesiynau Celf dros Les, a **chlwb ffilm i blant ar nosweithiau Gwener,** gyda'r holl weithgareddau'n parhau tan o leiaf Mawrth 2026.

Bydd **Canolfan Hen Ysgol Bodorgan** yn agor Lle Cynnes **bob dydd Llun 11.30am–2.30pm, gan gynnig cinio ysgafn wedi'i goginio gartref, gweithgareddau cymdeithasol a chefnogaeth i drigolion unig.** Bydd y prosiect yn parhau am 12 wythnos tan ddiwedd Mawrth 2026, gyda **darpariaeth ychwanegol ar gyfer y Nadolig gan gynnwys pryd bwyd Dydd Nadolig."**

Bydd **Canolfan Gymdeithasol Gymunedol Gwelfor** yn cynnal **gweithgareddau bob dydd Mercher 11am–2.30pm,** gan gynnig **cinio poeth am ddim, diodydd a gweithgareddau cymdeithasol.** Bydd y sesiynau wythnosol hyn yn parhau tan Fawrth 2026, gan gefnogi teuluoedd, ffoaduriaid, pobl hŷn a'r rhai a gyfeirir drwy cyswllt cymdeithasol."



Bydd **Neuadd Bentref Llangaffo** yn parhau â'i rhaglen Lle Cynnes gyda Chlwb Cinio **wythnosol ar Ddydd Iau 12–2pm, sesiynau Nifty 60s bob dydd Mawrth 1–2pm, a Chi Me ar Ddydd Iau 2–3pm,** gan redeg o Ionawr tan Mawrth 2026 (12 wythnos). Mae pob sesiwn yn cynnwys pryd poeth, diodydd a gweithgareddau cymdeithasol i gefnogi llesiant."

Bydd **Canolfan Gymunedol Carreglefn** yn cynnal **sesiynau sgwrsio a ymarfer Cymraeg bob dydd Llun** dros amser cinio o Ionawr tan ddiwedd Mawrth, gan gynnig **gemau bwrdd, crefftau a chawl cartref** i gefnogi dysgwyr newydd a thrigolion lleol i gysylltu yn Gymraeg. Mae'r rhaglen wyth wythnos hon yn cael ei chyflwyno gyda chefnogaeth Clwb y Cen ac mae'n targedu lleihau unigedd y gaeaf tra'n datblygu sgiliau a hyder."



**Os hoffech ragor o wybodaeth am y sesiynau hyn — neu i ddarganfod pethau eraill sy'n digwydd ar draws Ynys Môn y Gaeaf hwn — ewch i: connectanglesey.wales.**

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council



# DWEUD EICH BARN!

## Pa ymgynghoriadau sy'n digwydd yn eich ardal chi?

## Arolwg Pum Egwyddor Tân & Achub Gogledd Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eich gwahodd i gymryd rhan yn eu hymgynghoriad ar drydydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol blynyddol 2026-2027.

Mae'r Awdurdod eisiau gwybod beth yw eich barn CHI ac yn gofyn am eich barn ynghylch a ydynt wedi nodi'r risgiau mwyaf priodol ac a fydd eu cynlluniau a'u hamcanion yn bodloni nodau ein pum egwyddor.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Agorodd yr ymgynghoriad ar 23 Hydref 2025 ac mae'n cau am hanner nos ar 14 Rhagfyr 2025.
I gymryd rhan, ewch i www.northwalesfire.llyw.cymru i gwblhau'r holiadur ac i gael mynediad at yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn ymateb i'r cwestiynau.

---

## CGGC yn lansio Barometer Cymru

Mae CGGC wedi lansio Baromedr Cymru – baromedr newydd y sector gwirfoddol yng Nghymru

WcVA
CGGC

**Beth yw Baromedr Cymru?**
Mae Baromedr Cymru yn ffynhonnell ddata dreigl newydd sydd wedi'i chynllunio i roi darlun cyfredol a chywir o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ar draws y sector gwirfoddol yng Nghymru.




**Pam cofrestru?**
Drwy gymryd rhan, bydd eich sefydliad yn ennill:
- Data personol bob chwarter i gefnogi gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mynediad at ddangosfwrdd ar draws y sector sy'n dangos tueddiadau allweddol a sut maen nhw'n newid dros amser.

**Beth sy'n gysylltiedig?**
Mae cymryd rhan yn syml. Bob chwarter, mae aelod staff neu wirfoddolwr enwebedig o'ch sefydliad yn cwblhau arolwg byr – gan gymryd dim ond 10–15 munud.

**Sut mae'n fuddiol i chi?**

Am fuddsoddiad bach o amser, byddwch yn derbyn mewnwelediadau a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol – gan eich helpu i gynllunio, addasu ac ymateb i heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.
Am ragor o wybodaeth cliciwch yma. Gallwch gael mynediad i'r arolwg drwy'r ddolen hon.

# DWEUD EICH BARN!

## Pa ymgynghoriadau sy'n digwydd yn eich ardal chi?

## Helpu i lunio cefnogaeth yn y dyfodol i grwpiau cymunedol yng Nghymru

Yn Cadwch Gymru'n Daclus, rydym yn angerddol am helpu grwpiau cymunedol gwirfoddol i dyfu a gwneud gwahaniaeth parhaol.

I wneud hyn yn effeithiol, mae angen i ni wybod beth sydd bwysicaf i chi.

Am ragor o wybodaeth ac i gwblhau'r arolwg cliciwch **yma**

---

## Dywedwch eich dweud ar gyllid ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru

Cyn pennu'r swm y mae pobl yng Ngogledd Cymru yn ei dalu am blismona drwy'r praesept, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Andy Dunbobbin, eisiau clywed beth yw eich barn am y cynlluniau fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ac arolwg.

Yn ogystal â chael eich barn ar newidiadau i'r swm a delir tuag at blismona, byddwch hefyd yn gallu dweud pa flaenoriaethau yr hoffech weld Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu arnynt. Bydd yr arolwg hefyd yn rhoi cyfle i chi ddweud sut rydych chi'n gweld plismona yn eich cymuned eich hun yn fwy cyffredinol.
Lansiwyd yr arolwg ar 10 Tachwedd 2025 ac mae'n cau ar 19 Rhagfyr 2025.

Ewch i'r ddolen isod yn ystod y cyfnod ymgynghori a llenwch yr arolwg byr i wneud i'ch llais gael ei glywed. Mae copïau papur o'r arolwg, yn y Gymraeg a'r Saesneg, hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd a gorsafoedd heddlu ledled Gogledd Cymru. Gallwch hefyd gael yr arolwg ar ffurf Hawdd ei Ddarllen.

Cymraeg: www.surveymonkey.com/r/83PLMMM
Saesneg: www.surveymonkey.com/r/FRPRMMZ

Fel arall, i dderbyn copi papur drwy'r post, cysylltwch â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y ffyrdd canlynol:
E-bost: OPCC@northwales.police.uk
Ffôn: 01492 805486
Post: Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Pencadlys yr Heddlu. Glan y Don, Bae Colwyn, LL29 8AW

MEDRWN MÔN

# SUT YDYCH CHI'N HYSBYSEBU EICH GWEITHGAREDDAU LLEOL, DIGWYDDIADAU A CHYFLEOEDD GWIRFODDOLI?

- Ydych chi eisiau i fwy o bobl fynychu eich digwyddiadau?
- Hoffech chi rannu gwybodaeth am eich grŵp neu sefydliad ledled Ynys Môn am ddim?
- Os felly, ymunwch â'r grwpiau sydd eisoes yn hysbysebu ar Cysylltu Sir Fôn!








**dewch i ymweld ar wefan!**

**www.connectanglesey.wales**

Am fwy o wybodaeth, neu cefnogaeth i uwchlwytho eich gwybodaeth, cysylltwch gyda Gemma@medrwnmon.org neu galw ar 01248 724944

# Cyfleoedd Gwirfoddoli












# Beth sydd ymlaen?












# Beth sydd ymlaen?










# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda !

## oddiwrth bawb yn Medrwn Môn

If you have an event that you would like us to promote, please contact:
**post@medrwnmon.org / 01248 724944 or register on**
[www.ConnectAnglesey.Wales](http://www.ConnectAnglesey.Wales)

# Cysylltwch gyda ni



Ffoniwch ar: 01248 724944

Ebost: POST@MEDRWNMON.ORG

FACEBOOK: MEDRWN MÔN

Wefan: WWW.MEDRWNMON.ORG